

Hysbysiad Preifatrwydd Cronfa Gymunedol GBE a Grantiau

Partneriaethau Lleol GBE

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y bydd Great British Energy (GBE) yn prosesu eich data personol, a'ch hawliau, mewn perthynas â chynlluniau grant Cronfa Gymunedol GBE a Phartneriaethau Lleol GBE. Gwneir yr hysbysiad preifatrwydd hwn o dan Erthyglau 13 a/neu 14 o Reoliad Cyffredinol Diogelu Data y DU (UK GDPR). GBE yw'r rheolydd data ar gyfer data personol a gasglir ac a brosesir drwy lenwi'r ffurflen gais hon. Rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion ein tasg gyhoeddus yn ein rhinwedd fel cwmni annibynnol sy'n eiddo llwyr i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net ac sy'n gweithredu o dan Ddeddf Great British Energy 2025. Rydym yn prosesu eich data personol at ddiben asesu eich cais ac ar gyfer cyflawni, monitro ac adrodd ar gynnydd y prosiect yn barhaus, yn unol â'r **Cytundeb Cyllid Grant (GFA) os cyhoeddir un i chi**.

1. Eich Data

Byddwn yn prosesu'r data personol canlynol wrth iddo gael ei gyflwyno ac yn ôl yr angen ar gyfer y broses ymgeisio a chyflawni:

a. Paratoi a Chyflwyno Cais

Manylion adnabod a chyswllt yr unigolion sy'n ymwneud â pharatoi a chyflwyno cais, gan gynnwys enwau, teitlau swyddi, enwau sefydliadau, cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn.

b. Asesu'r cais

Gwybodaeth broffesiynol ac ynglŷn â chyflogaeth yn ymwneud ag unigolion a enwir mewn cais, gan gynnwys rolau swydd, cymwysterau, sgiliau, profiad ac unrhyw CVs neu dystiolaeth ategol a gyflwynwyd i ddangos gallu a chapasiti ar gyfer y prosiect.

c. Dyfarnu Grantiau, Monitro a Chyflawni Prosiectau

- Manylion adnabod a chyswllt unigolion sy'n ymwneud â rheoli neu gyflawni'r prosiect a ariennir.
- Gwybodaeth yn ymwneud â llywodraethu prosiect, staffio, partneriaid cyflawni a phersonél allweddol, gan gynnwys rolau swydd, cymwysterau, profiad a chyfrifoldebau perthnasol.
- Gwybodaeth ariannol yn ymwneud â chyflawni prosiect lle bo'n berthnasol, gan gynnwys costau staff, gwybodaeth am gyflogau, cyfraddau

dyddiol neu gostau personél eraill sydd wedi'u cynnwys o fewn cyllidebau prosiect a hawliadau grant cymeradwy.

2. Pwrpas

Y dibenion yr ydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer yw:

- I wirio gwybodaeth a gynhwyswyd yn eich cais.
- I fonitro cynnydd a chyflawniad gweithredol y prosiect.
- At ddibenion samplu costau staff, gwirio cyflogaeth a gwariant y prosiect.
- Ar gyfer gwerthuso'r prosiect er mwyn deall ei effaith a llywio mentrau GBE yn y dyfodol.
- At ddibenion atal, ymchwilio i a chanfod twyll.

3. Sail gyfreithiol dros brosesu

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU: mae'r prosesu hwnnw'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolwr data.

Yn yr achos hwn:

- cyflawni amcanion GBE fel y nodir yn ei erthyglau cymdeithasu (fel y'u gorchmynnir gan adran 3 o Ddeddf Great British Energy 2025) ac fel y'u hadlewyrchir ymhellach yn y datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer GBE, a gyhoeddwyd ar 16 Medi 2025, a Chynllun Strategol GBE a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr 2025, sy'n ei gwneud yn glir bod amcanion craidd GBE yn cynnwys "datblygu prosiectau ynni glân newydd a lleihau risg prosiectau presennol sy'n angenrheidiol i gyflawni Pŵer Glân 2030 a Sero Net 2050, gan gynnwys gweithredu fel cyd-ddatblygwr gyda'r sectorau preifat a chyhoeddus, llywodraeth leol, a grwpiau ynni cymunedol"; a
- bod yn atebol ac yn dryloyw ynghylch y swyddogaethau a'r polisiau y mae GBE yn gyfrifol amdanynt.

Mae prosesu data personol yn angenrheidiol er mwyn gweithredu unrhyw gynllun grant neu ddyfarniad, lle caiff ei ddefnyddio fel rhan o'r broses o asesu ceisiadau ac wrth fonitro prosiectau sy'n derbyn cyllid grant yn barhaus.

Mae hyn yn cefnogi nod strategol GBE o gynyddu perchnogaeth leol a chymunedol ar ynni glân a chefnogi dros 1,000 o brosiectau ynni lleol a chymunedol, gan hybu perchnogaeth gymunedol drwy alluogi gwerthusiad cadarn o allu a phrofiad yr ymgeiswyr.

Gall GBE gysylltu â chi i ofyn a ydych yn dymuno cytuno i rannu eich gwybodaeth â sefydliadau cyllid cyhoeddus ehangach y mae GBE yn ymrwmo i gytundebau rhannu data â nhw (fel y gellir cyfeirio ymgeiswyr at ffynonellau cymorth amgen posibl). Y sail gyfreithiol ar gyfer unrhyw brosesu o'r fath fyddai Erthygl 6(1)(a) o GDPR y DU (cydsyniad), a darperir Hysbysiad Preifatrwydd ar wahân ar gyfer prosesu o'r fath.

4. Derbynwyr

Bydd eich data personol yn cael ei rannu gyda:

- ein prosesydd data: Jeremy Benn Associates Limited (sy'n masnachu fel JBA Consulting) ("JBA"),
- cyrff llywodraethol (gan gynnwys adrannau llywodraeth Ei Fawrhydi, asiantaethau, llywodraethau datganoledig, llywodraeth leol, a chyrff lled-annibynnol) lle bo angen hynny ar gyfer gweithredu'r cymalau archwilio a/neu adrodd y cytunwyd arnynt yn Nogfen Fframwaith GBE; a lle bo angen hynny i gefnogi datblygu, cydlynu, cyflwyno, monitro, gwerthuso neu oruchwylio rhaglenni, cynlluniau a mentrau ynni lleol a chymunedol, neu i hwyluso ymgysylltu â noddwyr prosiectau, partneriaid cyflwyno a rhanddeiliaid perthnasol eraill; pan rannir eich data â chyrff llywodraethol, caiff ei ddosbarthu fel data sy'n sensitif yn fasnachol, a bydd y derbynnydd yn rhwym i'r un telerau cyfrinachedd,
- Canolfannau Sero Net Lleol a phartneriaid eraill y mae GBE yn ymrwymo i gytundebau rhannu data â nhw mewn perthynas â'r prif amcan a nodwyd uchod, lle bo angen hynny i gefnogi datblygu, cydlynu, cyflwyno, monitro, gwerthuso neu oruchwylio rhaglenni, cynlluniau a mentrau ynni lleol a chymunedol, ac
- asesydd(wyr) arbenigol sy'n arbenigwyr â gwybodaeth dechnegol y gellir ei dangos a phrofiad ymarferol mewn meysydd sy'n hanfodol i'r cais, megis manylebau technegol cydrannau neu systemau penodol neu gyfrifwyr ffforensig.

Fel rhan o'n seilwaith TG, caiff eich data personol eu storio yn lwerddon ar systemau a ddefnyddir gan ein prosesydd data neu is-broseswyr (sef Microsoft ac Amazon Web Services). Nid yw hyn yn golygu ein bod yn rhannu eich data personol â'r endidau hyn yn weithredol; yn hytrach, darparwyr gwasanaethau technegol ydynt sy'n cynnal y seilwaith sy'n cefnogi ein systemau TG.

5. Cadw

Byddwn yn cadw eich data personol am gyfnod y ffenestr ymgeisio. Ar ôl i'r ffenestr ymgeisio gau, caiff eich data personol ei ddileu o fewn 30 diwrnod, ac eithrio'r data y mae angen ei gadw er mwyn sicrhau bod unrhyw geisiadau llwyddiannus yn parhau i gael eu monitro a'u gwerthuso. Bydd y prosesydd data, JBA, yn rheoli hyn yn rheolaidd ac yn ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses. Yna, caiff y data hwn ei ddileu o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r Cytundeb Cyllid Grant ddod i ben.

6. Gwneud penderfyniadau awtomataidd

Ni fydd eich data personol yn destun gwneud penderfyniadau awtomataidd.

7. Trosglwyddiadau Rhyngwladol

Caiff eich data personol ei brosesu yn lwerddon.

8. Eich Hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am wybodaeth ynghylch sut y caiff eich data personol ei brosesu, ac i ofyn am gopi o'r data personol hwnnw.



Mae gennych hawl i ofyn i unrhyw anghywirdebau yn eich data personol gael eu cywiro heb oedi.

Mae gennych hawl i ofyn i unrhyw ddata personol anghyflawn gael ei gwblhau, gan gynnwys drwy gyfrwng datganiad atodol.

Mae gennych hawl i ofyn i'ch data personol gael ei ddileu os nad oes cyfiawnhad mwyach dros ei brosesu.

Mae gennych hawl, mewn amgylchiadau penodol (er enghraifft, pan fo anghydfod ynghylch cywirdeb), i ofyn i'r broses o brosesu eich data personol gael ei chyfyngu.

Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol pan gaiff ei brosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu mewn amgylchiadau penodol.

I arfer eich hawliau, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

9. Manylion Cyswllt

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data GBE yn:

GBE Data Protection Officer

Great British Energy

Level 5,

MSq2

Marischal Square,

Aberdeen,

AB10 1BL

E-bost: dataprotection@gbe.gov.uk.

Os ydych yn anafdlon ar y ffordd rydym wedi trin eich data personol, ysgrifennwch at Swyddog Diogelu Data GBE yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Prosesydd Data

Prosesydd eich data personol yw Jeremy Benn Associates Limited ("JBA"). Gallwch gysylltu â Rheolwr Preifatrwydd Data Grŵp JBA yn:

Jeremy Benn Associates Limited, 1 Broughton Park, Old Lane North, Broughton, Skipton, North Yorkshire, BD23 3FD

Drwy e-bost at Data.Privacy@jbagroup.co.uk sydd ar gael drwy eu gwefan yn [Privacy - JBA Consulting](#)

10. Cwynion

Os ydych chi'n ystyried bod eich data personol wedi cael ei gamddefnyddio neu ei gam-drin, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol yn y DU. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

<https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Nid yw unrhyw gwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhagfarnu eich hawl i geisio iawndal drwy'r llysoedd.

11. Diweddariadau i'r hysbysiad hwn

Os bydd y hysbysiad preifatrwydd hwn yn newid mewn unrhyw ffordd, byddwn yn darparu fersiwn wedi'i diweddaru i chi. Mae adolygu hwn yn rheolaidd yn sicrhau eich bod bob amser yn ymwybodol o ba wybodaeth rydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei defnyddio, ac o dan ba amgylchiadau y byddwn yn ei rhannu â phartïon eraill. Pan ddarperir fersiwn wedi'i diweddaru, bydd y dyddiad 'diweddarwyd ddiwethaf' ar waelod y dudalen hon hefyd yn newid.

Os bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar sut y caiff eich data personol ei brosesu, byddwn yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi.

Diweddarwyd ddiwethaf: 17/09/2026